OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 163

## Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

## RHAN 10

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar

### Gofyniad cyffredinol

**37.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar yn addas ar gyfer y gwasanaeth, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.

### Digonolrwydd mangreoedd

**38.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod gan y mangreoedd a ddefnyddir ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth gyfleusterau digonol ar gyfer—

(a) goruchwylio staff;

(b) storio cofnodion yn ddiogel.

### Mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar - gofalwyr lleoli oedolion

**39.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael trefniadau yn eu lle i sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir gan ofalwyr lleoli oedolion i ddiwallu anghenion unigolion—

(a) yn addas ac yn ddiogel i'r diben y bwriedir iddynt gael eu defnyddio ato;

(b) yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel;

(c) yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol;

(d) yn cael eu cadw'n lân yn unol â safon sy'n briodol i'r diben y maent yn cael eu defnyddio ato;

(e) yn achos cyfarpar, yn cael ei storio'n briodol.